**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Ebrill 18fed 2016 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Roy Tickle (is gadeirydd), Raymond Bartley, Colin L Hughes, Brian Davies, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones, Marilyn Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Arsylwi:** Mrs Jenny Barlow.

**Ymddiheuriadau:** Cyng Colin Hughes (cadeirydd).

Yn absenoldeb y cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y dirprwy gadeirydd y Cyng Roy Tickle. Croesawodd y dirprwy gadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley - unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych - personol.
(2) Cyng Raymond Bartley - cymorthdaliadau - Hen ac Anabl Dinbych - personol a niweidiol.
(3) Cyng Raymond Bartley - cymorthdaliadau - Carnifal Dinbych - personol a niweidiol.
(4) Cyng Raymond Bartley - eitem agenda 5 - Dinbych yn ei Flodau - personol a niweidiol
(5) Cyng Catherine Jones - cymorthdaliadau - Carnifal Dinbych - personol a niweidiol.
(6) Cyng Catherine Jones - Cymorthdaliadau - Pigfest - personol a niweidiol.
(7) Cyng Catherine Jones - eitem agenda 5 - Dinbych yn ei Flodau - personol.
(8) Cyng Gaynor Wood-Tickle - eitem agenda 5 - Dinbych yn ei Flodau - personol.

**2. Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Fawrth 14eg 2016.**

**3. Materion yn codi:** Dim

**A. <u>Amgylchedd.</u>** Nid oedd unrhyw faterion amgylcheddol.

**B. <u>Cyllid</u>**

**1. Nodwyd a derbyniwyd rhestr taliadau a wnaed gan glerc y dref yn ystod y cyfnod Mawrth 22ain 2016 - Mawrth 31ain 2016** - chwech o daliadau gyda chyfanswm o £7,824.18.

**2. Cyfrifon:** Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Trefi Caerog Ewropeaidd - aelodaeth 2016<br>(Rhif siec 005856) | - | £100.00 |
| (2) | Catalyst Systems - cynnal a chadw offer GT ar y safle dros 12mis<br>(Rhif siec 005857) | - | £420.00 |
| (1) | Zurich Municipal - premwim yswiriant blynyddol y cyngor a'r cyn Lysdy 2016/2017<br>(Rhif siec 005858) | - | £5,691.52 |
| (4) | Pen y Bryn Joinery - atgyweirio lloches bysiau ar Hen Ffordd Rhuthun (Cofnod A2 dyddiedig 14.3.16 yn cyfeirio)<br>(Rhif siec 005859) | - | £234.00 |
| (5) | MAC3 - gwe-letya gwefan y cyngor am 12 mis<br>(Rhif siec 005860) | - | £69.00 |

Cyfanswm taliadau: £2,404.18

**3. Nodwyd a derbyniwyd adroddiad ariannol 1.4.15 - 31.3.16.**

**4. Cysoniad Chwarterol y Banc 2015/2016.** Yn ystod y cyfarfod archwiliwyd y cysoniad chwarterol Mawrth 2016 yn y llyfr cyfrifon gan yr holl aelodau oedd yn bresennol ac ardystiwyd y llyfrifiadau gan bob aelod yn unol â hynny.

**5. Adroddiad diwedd y flwyddyn ariannol 2015/2016.** Nodwyd adroddiad ariannol diwedd y flwyddyn (31.3.16) gan gynnwys y proffil arian wrth gefn gyda diolch i glerc y dref.

**6. Nodwyd derbyn £1,470.32 oddi wrth HMRC sef ad-daliad TAW.**

**7. Materion ariannol eraill.** Ystyriwyd y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Greenfingers ynglŷn ag arddangosfeydd blodau Neuadd y Dref a'r Llyfrgell. Roedd y dyfynbris yr un un ac ar gyfer 2015. **Penderfynwyd derbyn y dyfynbris.**

**8. Cymorthdaliadau**: 1. Nodwyd y llythyrau ac e-byst yn diolch a dderbyniwyd oddi wrth (1) Cymdeithas Eirianfa (2) Denbigh Men's Shed, Macmilan Cancer Support.

2. Nodwyd y rhestr taliadau cymorthdaliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/2016.

3. I drafod ac argymell polisi ar daliadau cymorthdaliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol 2016/2017: Am mae'r cyfarfod yma oedd y cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn ariannol bresennol, cytunwyd i adolygu polisi cymorthdaliadau'r cyngor. Mynegwyd cryn bryder ynglŷn â pholisi'r cyngor i osod uchafswm o £1,500 ar geisiadau a dderbynnir. Ers i'r polisi gael ei gytuno roedd yn ymddangos, unwaith eto ,fod mwy o geisiadau yn cael eu cyflwyno am £1,500 a mwy. Cyfeiriwyd at baragraff 6 o'r nodiadau cyfarwyddo ynghlwm wrth y ffurflen gais, hynny yw, os bydd grantiau dros £1,000 roedd rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar sut y gwariwyd yr arian. Cytunwyd fod angen archwilio'n ddwfn ceisiadau am symiau mawr.
Cytunwyd i fabwysiadu'r polisi canlynol i sicrhau fod digon o arian ar gael i ariannu pob cais am gymorthdaliadau a dderbynnir yn ystod y flwyddyn.

(1) Ceisiadau oddi wrth elusennau cenedlaethol - I barhau a £100 y cais ond i gadw rhagorfraint os byddai sefyllfa leol ragorol neu argyfwng.
(2) Ceisiadau oddi wrth elusennau lleol - I barhau a'r polisi fod pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.
(3) Uchafswm o £1,500 i'w osod ar bob cais. Cytunwyd hefyd i archwilio pob cais yn ofalus ac os bydd angen i ofyn am fwy o wybodaeth. Gellir ystyried grantiau am fwy na £1,500 os oedd y cais, yn dilyn archwiliad, yn haeddu grant uwch.
(4) Bydd rhaid i fantolen neu gyfrifon gael ei gynnwys gyda phob cais ac os nad oedd hyn ar gael bydd angen eglurhad pam nad oedd hyn yn bod. Roedd yn bwysig fod y ceisydd yn cydymffurfio a hyn ac os nad oedd ni fydd penderfyniad ar y cais.
(5) Pob grant a ganiateir dros £1,000, bydd rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar sut y gwariwyd yr arian - yr adroddiad i'w gyflwyno i'r cyngor tref o fewn 6 mis gwblhau'r digwyddiad / prosiect.

4. Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Sioe Dinbych a Fflint (gohiriwyd o 14.3.16) | - | £350 (A.137)(Rhif siec 005861) |
| (2) | Gwarchod Cymdogol Lyf Lôn (gohiriwyd o 14.3.16) | - | £200 (A.137)(Rhif siec 005862) |
| (3) | Hen ac Anabl Dinbych | - | £1,500 (A.137)(Rhif siec 005863) |

(Gan fod y Cyng Bartley wedi datgan diddordeb, gadawodd y siambr tra trafodwyd y cais)

(4) Carnifal Dinbych - £3,000 (A.137)(Rhif siec 005864)
(Gan fod y Cyng Bartley a Jones wedi datgan diddordeb. Gadawsant y siambr tra trafodwyd y cais)

(5) Pigfest - **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **I ohirio penderfyniad tan dderbynnir gwybodaeth yn dilyn trafodaethau rhwng y ceisydd a Chlwb Gwledig Plas Pigot**

5. E byst oddi wrth Lyndsey Tasker & Caryl Jones ynglŷn â Dinbych yn ei Flodau. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ohebiaeth ychwanegol a dderbyniwyd oddi wrth Lyndsey Tasker. Dywedwyd fod yna rhywfaint o anghytundeb o fewn y pwyllgor. Cytunwyd i ohirio unrhyw benderfyniad i weld beth oedd dyfodol y grŵp.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am o'r 7.50 o'r gloch.

Arwyddwyd:..........................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................